# YMWELIADAU SAFLEOEDD CYNLLUNIO

## Adroddiad ar y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Awst 2011

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd J. Arwel Roberts (Cadeirydd);<br>Y Cynghorwyr John Chorlton, E. G. Davies, Lewis Davies, K. P. Hughes, T. H. Jones, E. Roberts.<br><br>Y Cynghorydd Keith Evans – Aelod Lleol (Safleoedd 1 a 2). |
| **WRTH LAW**: | Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu (DPJ)<br>Swyddog Trafnidiaeth Ynys Ynni (JRWO)<br>Cymhorthydd Cynllunio (JR)<br>Swyddog Pwyllgor (JMA)<br>Cymhorthydd Gweinyddol (SWJ) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr Jim Evans, W. T. Hughes, C. McGregor, R. L. Owen, J. Penri Williams. |

---

**1. 39C504 – Gwaith altro ac ymestyn yn Islwyn, Porthaethwy**

Dywedodd yr Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu mai cynnig oedd hwn am estyniad deulawr na fyddai yn uwch na'r annedd gyfredol. Dangosodd gynlluniau'r cynnig i'r Aelodau gan gadarnhau y byddai'r estyniad yn ymestyn oddeutu 7 metr i'r ardd gyfredol.

Cadarnhaodd yr Aelod Lleol bod yna wrthwynebiad cryf yn lleol i'r cynnig a rhoddodd wybodaeth ynglŷn â chefndir datblygu'r stad. Dywedodd bod yr holl eiddo yn destun cyfamod cyfreithiol na fyddai yna unrhyw estyniadau / carafannau ac ati ar y safle a hynny er mwyn cadw cymeriad y bedair annedd gyfredol. Roedd yn ystyried bod y cynnig hwn yn un fyddai'n gordd-ddablygu'r safle ac y byddai allan o gymeriad gyda'r annedd bresennol.

Edrychodd yr aelodau ar y cynnig o ffrynt yr annedd bresennol, a hefyd o'r eiddo y drws nesaf i'r annedd ac oddi ar ffordd yr A5.

**2. 39C291Y/ECON - Darparu palmant, newidiadau i'r trefniadau parcio ar y stryd a gwelliannau i'r gyffordd yn gysylltiedig â gwaith dymchwel rhan o'r adeilad cyfredol a chodi bwyty yn Iard Gychod Porth Daniel, Stryd y Dwr, Porthaethwy.**

Dywedodd yr Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu bod y cais hwn yn union fel a amlinellwyd uchod a chafodd yr aelodau gyfle i edrych ar y cynlluniau ar gyfer yr estyniad deulawr arfaethedig. Cadarnhaodd y byddai'r adeilad wedi ei gladio â choed gyda 240 metr sgwâr o lawr ychwanegol. Byddai'r datblygiad yn darparu 8 o swyddi llawn amser a 12 swydd rhan amser.

Dywedodd yr Aelod Lleol ei fod yn croesawu'r bwyty a'r gwelliannau arfaethedig i'r ffordd ond bod ganddo bryderon difrifol ynglŷn â materion parcio. Ei ddealltwriaeth ef o bethau oedd y byddai'r bwyty yn darparu lle bwyta i 100 o bobl ac y byddai'r bwyty, felly, angen cael ei faes parcio ei hun. Roedd am atgoffa'r Aelodau mai trefniant tros dro (blwyddyn i flwyddyn) fu'r defnydd o ran o'r safle i storio cychod ac roedd yn credu y dylai'r llecyn hwnnw gael ei ddefnyddio fel maes parcio.

Edrychodd yr Aelodau ar y datblygiad o Ffordd Cynan gyda'r Swyddog Trafnidiaeth Ynys Ynni yn amlinellu'r gwelliannau arfaethedig i'r groeslon a'r llwybr troed. Dywedodd bod yr Adain Trafnidiaeth yn trafod y cyfleusterau parcio cyfredol ac yn ystyried cael lle parcio gyda chyfyngiad amser i 4 cerbyd

yn ochr y bwyty arfaethedig.  Ychwanegodd bod y datblygwyr wedi llunio cynllun teithio a datganiad cludiant ac wedi cynnal arolwg o feysydd parcio gerllaw sydd o fewn pellter cerdded o 5 munud o'r safle.  Cadarnhaodd bod y cynnig yn cyd-fynd â'r cyngor geir yn TAN18 Polisi Cynllunio Cymru.

**Y CYNGHORYDD J. ARWEL ROBERTS**

**CADEIRYDD**